Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2020 Rhif 1215 (Cy. 274)

# YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU

# DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

## Rheoliadau'r Amgylchedd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau ym mharagraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21(b) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16) er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill yng nghyfraith yr UE a ddargedwir sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae rheoliad 2 yn gwneud diwygiadau i Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 (O.S. 2012/1903 (C.230)).

Mae rheoliad 3 yn diwygio Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/390 (C.95)), sydd ei hun yn diwygio Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2010 (O.S. 2010/1433 (C.126)).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2020 Rhif 1215 (Cy. 274)

# YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU

# DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

## Rheoliadau'r Amgylchedd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

*Gofynion sifftio wedi eu bodloni* *2 Tachwedd 2020*

*Gwnaed* *4 Tachwedd 2020*

*Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* *6 Tachwedd 2020*

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21(b) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(**1**).

Mae gofynion paragraff 4(2) o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno (sy'n ymwneud â gweithdrefn graffu briodol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer y Rheoliadau hyn) wedi eu bodloni(**2**).

Yn unol â pharagraff 4 o Atodlen 2 i'r Ddeddf honno, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol.

(**1**) 2018 p. 16.
(**2**) Mae'r cyfeiriad yn Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 at Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael effaith bellach fel cyfeiriad at Senedd Cymru, yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Amgylchedd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu ac eithrio rheoliad 3 a ddaw i rym yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

**Diwygio Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012**

**2.**—(1) Mae Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012(**1**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle erthygl 11(3), rhodder—

"(3) Caiff Gweinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol roi cyfarwyddiadau cyffredinol neu benodol i'r Corff er mwyn—

(a) sicrhau y bodlonir unrhyw un neu ragor o rwymedigaethau UE a ddargedwir, neu

(b) gweithredu unrhyw un neu ragor o rwymedigaethau rhyngwladol y Deyrnas Unedig."

(3) Yn lle erthygl 11A(2)(b), rhodder—

"(b) o dan unrhyw ddeddfiad arall at ddiben—

(i) sicrhau y bodlonir unrhyw un neu ragor o rwymedigaethau UE a ddargedwir, neu

(ii) gweithredu unrhyw un neu ragor o rwymedigaethau rhyngwladol y Deyrnas Unedig,".

(4) Yn lle erthygl 11A(4), rhodder—

"(4) Mae paragraff (4A) yn gymwys os yw Gweinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol yn amrywio neu'n dirymu unrhyw gyfarwyddyd a roddir i'r Corff (boed o dan erthygl 11 neu o dan unrhyw ddeddfiad arall) at ddiben—

(a) sicrhau y bodlonir unrhyw un neu ragor o rwymedigaethau UE a ddargedwir, neu

(b) gweithredu unrhyw un neu ragor o rwymedigaethau rhyngwladol y Deyrnas Unedig.

---

(**1**) O.S. 2012/1903 (Cy. 203), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2013/755 (Cy. 90) ac O.S. 2013/1821 (Cy. 1821).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(4A) Pan fo'r paragraff hwn yn gymwys, rhaid i'r person sy'n gwneud yr amrywiad neu'r dirymiad—

(a) cyhoeddi'r amrywiad neu'r dirymiad cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol;

(b) sicrhau bod copïau o'r amrywiad neu'r dirymiad ar gael ar gais."

**Diwygio Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019**

**3.** Yn rheoliad 2(5)(a) o Reoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019(**1**), yn lle "Chyfarwyddeb 2008/1/EC" rhodder "Chyfarwyddeb 2010/75/EU".

*Lesley Griffiths*
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
4 Tachwedd 2020

(**1**) O.S. 2019/390 (Cy. 95).